Y Flwyddyn Gyntaf ym Mro Myrddin

Ysgol Bro Myrddin

Gweithgareddau Blwyddyn 7

Ysgol Bro Myrddin

Y Flwyddyn Gyntaf ym Mro Myrddin

Ysgol Gyfun Gymraeg
BRO MYRDDIN
Welsh Comprehensive School

Croesyceiliog,
Caerfyrddin / Carmarthen,
SA32 8DN

Ffôn / Tel: (01267) 234829
Ffacs / Fax: (01267) 221838
E-bost / E-mail: swyddfa@bromyrddin.sirgar.sch.uk

Prifathro / Headteacher: **Dorian T. Williams** B.A.

Cyflwyniad Y Prifathro

Ddechrau mis Medi 2007 fe ddaw'r cyffro a'r cynnwrf sy'n gysylltiedig â dechrau mewn ysgol newydd i ran eich plentyn. Fel trydydd Prifathro Ysgol Bro Myrddin, pleser o'r mwyaf yw ysgrifennu cyflwyniad byr ar gyfer y llyfryn hynod bwysig hwn. Hyderaf y bydd yr wybodaeth sydd ynddo, wedi'i threfnu fesul pwnc, yn fodd ichi ddeall yn well yr hyn a fydd yn cael ei gynnig i'ch plentyn ym Mlwyddyn 7. Gobeithiaf hefyd y bydd yn gyfrwng i chi weld yr hyn y gallwch chi fel rhieni/gwarcheidwaid ei wneud i helpu eich plentyn ddechrau yn y sector uwchradd â hyder.

Dros y blynyddoedd mae Bro Myrddin wedi sefydlu trefn gyswllt a fu'n effeithiol dros ben ac yn fodd i sicrhau bod y plentyn yn ymgartrefu ym Mro Myrddin yn hwylus a didrafferth. Mae'r drefn hon yn cynnwys ymweliadau cyson staff Bro Myrddin â'r ysgolion cynradd, Noson Agored yn ystod yr hydref, y Cwrs Pontio yn Llangrannog, ymweliad disgyblion Blwyddyn 6 â Bro Myrddin yn nhymor yr haf a'r Noson i Rieni Newydd. Mae cryn gydweithio hefyd rhwng yr athrawon cynradd a'r uwchradd wrth geisio sicrhau dilyniant priodol a phwrpasol yn yr addysgu a'r dysgu.

Mae'r trosglwyddo o'r cynradd i'r uwchradd yn gam mawr yn natblygiad eich mab neu eich merch o fod yn blentyn i fod yn oedolyn. Gwn y byddwch chi fel rhieni/gwarcheidwaid yn rhwym wrth y broses hon ac y bydd gennych ran allweddol i'w chwarae ynddi. Mae croeso ichi felly gysylltu â mi yn bersonol os bydd gan eich plentyn unrhyw bryderon ynghylch trosglwyddo o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd. Mae brwdfrydedd ac ymrwymiad yr ysgol i feithrin cysylltiadau cyfathrebu da â'r rhieni yn amlwg – da yn yr ystyr mai ein nod yw osgoi'r rhan fwyaf o argyfyngau a chefnogi llwyddiant y disgybl unigol.

Daw ysbryd y bartneriaeth rhwng y cartref a'r ysgol (gyda'r llyfryn hwn yn un elfen o'r broses honno) i'r amlwg fwya pan fydd rhieni ac athrawon yn cwrdd â'i glydd wyneb yn wyneb. Edrychaf ymlaen felly at gwrdd â chi yn ystod y flwyddyn sydd o'n blaen.

Yn gywir iawn,

D. T. Williams

Dorian Williams

Gwybodaeth i Rieni

Annwyl Riant (Rieni),
Gwerthfawrogwn fel ysgol bryderon pob rhiant pan fydd ei blentyn yn dechrau addysg uwchradd. Bwriada'r llyfryn yma roi gwybodaeth am y pynciau y bydd eich plentyn yn astudio ym Mlwyddyn 7 a sut y medrwch gefnogi'r addysg yn ystod y flwyddyn bwysig yma. Cyn i chi fynd ati i ddarllen am gynnwys cwricwlaidd y flwyddyn hoffwn sôn ychydig am agweddau eraill o fywyd ysgol uwchradd.

Nôd yr ysgol yw i 'gynnig cyfle cyfartal i bob disgybl ddatblygu hyd eithaf ei allu yn academaidd yn gymdeithasol, yn ddiwylliannol, yn feddyliol ac yn gorfforol.' Yn sgil hyn fe fydd y disgyblion yn cael y cynnig i fynychu amryw o weithgareddau allgyrsiol. Fe fyddwn ni fel ysgol yn hyrwyddo'r gweithgareddau yma a'u pwysigrwydd ond gofynnwn i chi i annog eich plentyn hefyd yn yr agweddau yma o fywyd ysgol.

Mae Cynllun Addysg Bersonol a Chymdeithasol Blwyddyn 7 hefyd yn ateb y gofynion uchod. Yn fras cynnwys y cynllun yw;

- Dechrau yn yr ysgol uwchradd.
- Penderfynu drosof fy hun.
- Cadw'n Heini.
- Ffrindiau a Chyfeillgarwch.
- Tyfu.

Wrth ddilyn y cwrs fe fydd y disyblion y cael cyfle i drafod a mynegi barn, holi cwestiynau, gwrando ar siaradwyr gwâdd, gwylio fideos ffeithiol, yn y gobaith y byddwn ni yn parhau i'w datblygu nhw fel unigolion.

Yn ogystal â'r uchod caiff y disgyblion gyfle i chwarae gêm yrfaol, 'Y Gêm Go Iawn', o dan gyfarwyddyd yr ymgynghorydd gyrfau Mr J. Selby.

Rydych chi fel rhieni wedi dewis danfon eich plentyn atom nid yn unig o achos llwyddiannau'r ysgol, ond yn bennaf oll oherwydd y Gymraeg, ac felly gofynnwn i chi hyrwyddo'r Gymraeg ar bob cyfle posib. Ewch ati i ddarllen y llyfryn gyda'ch plentyn ac i rannu yn y cyffro o'r cam mawr o gychwyn ar addysg uwchradd.

Ym mis Medi fe fydd eich plentyn yn derbyn Dyddiadur. Mae'r llyfryn bach hwn yn holl bwysig oherwydd;

- Mae amserlen eich plentyn yn ei ganol a gofynnwn i chi helpu sicrhau bod eich plentyn yn dod â'r offer neu'r dillad priodol i'r ysgol.
- Prif ddiben y dyddiadur yw i gofnodi gwaith cartref. Ar ddiwedd pob wythnos gofynnwn i chi ei lofnodi. Fe fydd hyn yn gyfle i chi drafod, a roi cymorth lle bo angen gyda'r tasgau gwaith cartref. Fe fydd y Tiwtor Dosbarth neu Bennaeth Blwyddyn hefyd yn llofnodi'r dyddiadur yn wythnosol. Medrwch osod nodyn yn y dyddiadur os oes unrhyw anhawsterau'n codi neu fe all athrawon pwnc nodi gwybodaeth er eich sylw chi.

Fe fydd eich plentyn hefyd yn derbyn copi o lyfryn 'Yr Iaith ar Waith' ac fe fydd hwn yn gyfeirlyfr defnyddiol iddynt. Dylid cludo'r llyfryn i'r ysgol yn ddyddiol.

Gwybodaeth i Rieni

Cysylltu â'r ysgol
Mae'r ysgol yn ymfalchio yn ei pherthynas â'r disgyblion a'u rhieni ac felly erfyniwn arnoch i gysylltu yn syth mewn achos o ofid. Fe fydd modd yn gynta' i ddelio â mater dros y ffôn, a lle bo angen medrwn drefnu amser cyfleus i gwrdd.

Gweithgareddau Allgyrsiol
Bydd y disgyblion yn derbyn gwybodaeth am weithgareddau allgyrsiol ar ddechrau'r flwyddyn ysgol. Cyfrifoldeb y disgybl yw penderfynu pa weithgareddau i'w mynychu ac hefyd i wneud trefniadau gyda chi fel rhieni ar gyfer mynd adref yn dilyn gweithgareddau a gynhelir ar ôl oriau ysgol.

Strwythur Bugeiliol
Fe fydd gan eich plentyn diwtor dosbarth. Dyma'r person a fydd yn gyfrifol am gofrestru'r dosbarth yn y bore a'r prynhawn. Ym ystod cyfnod cofrestru yn y bore bydd y tiwtor dosbarth yn rhoi cyhoeddiadau ynglŷn â gweithgareddau'r dydd i'r disgyblion. Y tiwtor dosbarth sydd hefyd yn gyfrifol am gyflwyno'r gwersi Addysg Bersonol a Chymdeithasol.

Mewn achos o salwch dylid cyfeirio'r nodyn o eglurhad i'r Tiwtor dosbarth. Bydd gan y tiwtor berthynas agos gyda'r disgyblion ac felly gobeithio y bydd y disgyblion yn barod i droi atynt am gymorth.

Mae Pennaeth Blwyddyn 7 yn gyfrifol am arwain y tîm tiwtoriaid ac os oes problem yn codi yn ystod y flwyddyn boed yn addysgol neu yn gymdeithasol gofynnwn i chi gysylltu yn gyntaf â'r Pennaeth Blwyddyn - Miss Rhiannon Hammond i'w trafod.

Disgyblaeth
Cyfrifoldeb yr athro pwnc yw disgyblaeth. Os yw disgybl yn camymddwyn mewn gwers yna bydd yn cael ei ddisgyblu o fewn y dosbarth. Os yw'r problemau yn parhau, bydd y Pennaeth Adran yn delio â'r sefyllfa a lle bo angen yn cysylltu â'r Pennaeth Blwyddyn.

Y Pennaeth Blwyddyn neu yr athrawon sydd ar ddyletswydd sydd yn delio gydag materion disgyblaeth yn ystod amser egwyl a chinio.

Penderfyniad y Pennaeth Blwyddyn yw gosod y disgybl ar adroddiad dyddiol, neu mewn ataliad amser cinio neu mewn achosion difrifol ataliad ar ôl yr ysgol. Os bydd disgybl yn cael ei roi ar adroddiad bydd y Pennaeth Blwyddyn yn cysylltu â'r rhieni.

Mae Dyddiadur Gwaith Cartref y disgybl yn gyswllt pwysig rhwng yr ysgol a'r cartref er mwyn trosglwyddo gwybodaeth.

Adroddiadau
Mae'r ysgol yn paratoi Taflen Cofnodi Marciau ar gyfer pob disgybl ar ôl Tasgau Safonol ac yna byddwch yn derbyn adroddiad llawn ar ddiwedd tymor yr Haf.

Trefnir Noson Rieni sy'n rhoi cyfle i chi gyfarfod â'r athrawon a thrafod gwaith eich plentyn rhwng 4 - 6 o'r gloch, ar y 15 Ionawr 2009.

Gadael Safle'r Ysgol
Ar adegau pan mae angen i chi gasglu eich plentyn yn gynnar o'r ysgol, gofynnir i chi anfon nodyn o eglurhad i'r tiwtor dosbarth. Rhaid i'r disgybl ofyn i un o'r Dirprwyon i lofnodi'r llythyr yn ystod egwyl ac yna arwyddo allan yn y swyddfa wrth adael y safle.

Os yw disgybl yn sâl yn ystod y dydd, rhaid mynd at y nyrs. Cyfrifoldeb y nyrs yw ffonio'r rhieni i gasglu'r disgybl os oes angen.

Y Gwasanaeth Cwnsela
Mae'r strwythur ar gyfer gofalu am les y disgyblion yn cael ei gydnabod fel un o gryfderau'r ysgol hon. Pwrpas y Gwasanaeth Cwnsela yw i gefnogi gwaith yr athrawon dosbarth, y penaethiaid blwyddyn a'r Tîm Rheoli Uwch. Gwneir hyn trwy gynnig cynhaliaeth personol i'r disgyblion hynny a fyddai'n elwa o'r cyfle i weithio gyda chwnselydd proffesiynol, sy'n annibynnol o'r ysgol.

Mae'r Gwasanaeth Cwnsela yn cynnig gwasanaeth cyfrinachol i'r disgyblion hynny sydd â materion cymdeithasol, emosiynol neu ymddygiadol yn eu poeni. Y gobaith yw y bydd cwnsela yn arwain at eu hawdurdodi, a'u helpu i wneud penderfyniadau dros eu hunain a fydd yn caniatau iddynt wneud newidiadau llesol. Bydd hyn yn eu hwyluso i wneud y mwyaf o'r cyfleoedd cymdeithasol ac academaidd a gynigir gan yr ysgol.

Mae gan Gwnselydd yr ysgol gymwysterau mewn cwnsela, ac mae'n perthyn i gorff cwnsela proffesiynol. Goruchwylir y gwasanaeth cwnsela yn y modd arferol ac fe'i werthusir yn rheolaidd.

Cynllun Cefnogi Cyfoedion
Eleni eto bydd criw o fyfyrwyr Blwyddyn 10 a 13 yn gweithredu Cynllun Cynghori Cyfoedion yn ystod yr awr ginio.

Bwriad y cynllun yw ymestyn y cyfleoedd diogel sydd ar gael i'r disgyblion o flwyddyn 7 - 13 i gael cyngor a chefnogaeth ac i drafod materion sydd yn eu poeni, a hynny mewn modd cyfrinachol.

Mae'r myfyrwyr a fydd yn cynnal y cynllun a'r athrawon a fydd yno yn gefn iddynt wedi eu hyfforddi yn benodol ar gyfer y gwaith gan Childline Cymru.

Tiwtoriaid Blwyddyn 7

Miss Rhiannon Hammond

Mr. John Norgrove

Mrs. Enfys Davies

Mr Wyn Mainwaring

Mrs. Tracy Jenkins

Mr. Aled Williams

Mrs. Helen Evans

Daearyddiaeth

Rhennir y cwrs i dair uned wahanol. Mae'r uned gyntaf yn ceisio datblygu sgiliau map sylfaenol. Gwneir defnydd helaeth o fapiau a thaflenni gwaith.

Yn yr ail uned, mae'r pwyslais ar ddaearyddiaeth Cymru. Edrychir ar amrywiaeth o agweddau gan gynnwys amaethyddiaeth a diwydiant.

Yn yr uned olaf, rhoddir sylw i agweddau o ddaearyddiaeth Prydain. Yn uned 2 a 3 y bwriad yw edrych ar y rhesymau sydd yn achosi newid.

Neilltuir tair gwers y pythefnos i ddysgu Daearyddiaeth, a Chymraeg yw cyfrwng y dysgu. Mae gwaith cartref a thechnoleg gwybodaeth yn gydran hanfodol o'r gwaith.

Yr Adran Fathemateg

Strategaeth Rhifedd

Ar ddechrau gwers gosodir tasg rhifedd er mwyn gwella sgiliau gwaith pen y disgybl ar y bwrdd gwyn tra bod yr athro yn galw'r gofrestr.

Dyma enghreifftiau o'r tasgau:-

1. Rhestrwch yr eilrifau sy'n llai na 80
2. Rhestrwch y rhifau sgwâr sy'n llai na 90
3. Cwblhewch y canlynol wrth luosi i'r top:





Rôl y rhieni

Dyma rai awgrymiadau o sut allwch helpu i roi dechreuad hyderus i'ch mab/merch:-

1. Bydd yr adran yn gosod dau ddarn o waith cartref bob wythnos a bydd angen i'r disgybl nodi'r dasg yn ei dyddiadur.
2. Bydd gwaith pen yn rhan allweddol o'r gwersi ac felly, byddai profion cyflym yn eu helpu i fagu hyder yn y sgil yma.
3. Bydd angen yr offer canlynol arnynt:-
   beiro, pensil, pren mesur, onglydd, cwmpawd a chyfrifiannell (ar werth yn swyddfa'r ysgol)

Yr Adran Fathemateg

Mae Blwyddyn 7 yn cael eu dysgu mewn grwpiau gallu cymysg yn y flwyddyn gyntaf ac felly bydd pawb yn dilyn yr un cynllun gwaith. Mae'r disgyblion yn cael eu hannog i fwynhau'r pwnc ac i fagu hyder wrth ddefnyddio sgiliau mathemategol.

Mae'r diagram canlynol yn arddangos yr unedau o waith a astudir yn ystod y flwyddyn:



Tymor 1af
Mae'r uned Rhif yn cael ei drafod yn ystod y tymor cyntaf ac yna rydym yn treulio hanner tymor yr un ar y bedair uned arall.

Dyma fraslun o'r testunau sydd yn cael eu trafod:



Hanner Tymor Chwefror



Yr Adran Fathemateg

Hanner Tymor Pasg



Hanner Tymor Sulgwyn



Hanner Tymor yr Haf



Cymraeg

Yn ystod blwyddyn 7 fe fydd eich plentyn yn cael y cyfle i greu a datblygu o fewn y tair sgil bwysicaf sef llafar, darllen ac ysgrifennu. Bydd y disgyblion yn astudio'r canlynol:

Y dyddiau Glas



Gwesty Cymru

Ni a Nhw

Taith Trwy Iaith

Dere, Darllen

Fel rhiant gallwch sicrhau cynnydd eich plentyn drwy ei helpu yn y ffyrdd canlynol:

Cyflwyniad y gwaith
Mae'n bwysig bob amser bod y plant yn cyflwyno'u gwaith yn daclus. Gofynnir iddynt danlinellu pob pennawd a gosod y gwaith yn drefnus.

I bob disgybl, rhoddir llyfr ysgrifennu ar gyfer gwaith creadigol; llyfryn rheolau iaith sef Taith Trwy Iaith a llyfryn gweithgareddau darllen sef Dere, Darllen. Rhaid i'r disgyblion ddod â'r rhain mewn ffeil amlen i bob gwers.

Gwaith Cartref
Gosodir un dasg gwaith cartref yr wythnos yn ôl yr amserlen gwaith cartref. Gall fod yn waith ysgrifennu, ymchwilio, darllen neu adolygu. Byddai o fantais pe bai rhieni yn sicrhau bod y gwaith cartref yn cael ei gyflwyno'n brydlon.

Darllen annibynnol
Bydd disgwyl i'ch plentyn ddarllen isafswm o dri llyfr y tymor o'r rhestr ddarllen sydd yng nghefn eu llyfrau ysgrifennu. Bydd cyfle i ddewis a thrafod llyfr newydd bob pythefnos yn y wers lyfrgell ac i gwblhau tasgau'r llyfryn Dere, Darllen.

Geiriaduron
Yn achlysurol bydd eich plentyn yn defnyddio geiriadur mewn gwersi. Byddai'n ddefnyddiol pe bai ganddo/ganddi gopi o eiriadur a thesawrws personol.

Cywiro gwaith
Rhoddir cywiriadau a sylwadau cyffredinol ar ddiwedd tasg a aseswyd.
Byddai o fudd i chi drafod y cywiriadau yma ynghyd â sylwadau'r athro gyda'ch plentyn.

Gwersi ar lein
Paratowyd cyfres o wersi Cymraeg ar ryngrwyd yr ysgol. Yn ystod y tymor addysgu felly fe fydd cyfle i'ch plentyn ddatblygu ei sgiliau Cymraeg law yn llaw â'i sgiliau cyfrifiadurol.

Cysylltiad â'r gymuned
Yn nhymor yr haf gwneir ymgais bob blwyddyn i wahodd bardd neu awdur poblogaidd i ymweld â'r disgyblion. Bwriad y peth yw ysbrydoli'r plant i greu o'r newydd ac i'w gwobrwyo am eu hymdrechion yn ystod y flwyddyn.

Saesneg

Bydd astudio Saesneg ym mlwyddyn 7 yn rhoi'r cyfle i'ch plentyn ddatblygu sgiliau yn y Targedau Cyrhaeddiad canlynol:

- Siarad a Gwrando;
- Darllen;
- Ysgrifennu.

Rhennir y gwaith i themau megis Myfi fy Hun, Anifeiliaid Anwes a Y Môr.

Cyflwyniad y Gwaith

Rhoddir dau lyfr ysgrifennu Saesneg i'ch plentyn: llyfr coch i ysgrifennu tasgau cyffredin a llyfr melyn er mwyn drafftio gwaith, gwneud nodiadau a chwblhau ymarferion gramadeg ac ati. Er bod y llyfr melyn yn gyfatebol i un bras mae'n ofynnol i'ch plentyn gyflwyno'r gwaith yn daclus ac i ddilyn confensiynau gwaith ysgrifennu a nodir ym mholisi yr ysgol.

Mae'n bwysig i chi sicrhau bod eich plentyn yn dod a'r ddau lyfr hwn i bob gwers Saesneg.

Darllen Annibynnol

Ym mlwyddyn 7 bydd disgyblion yn darllen dau lyfr yn y dosbarth ond disgwylir iddynt hefyd ddatblygu eu sgiliau darllen annibynnol. Amserlennir gwersi darllen er mwyn mynd i'r llyfrgell ac i'r disgyblion gael amser i ddarllen llyfrau o'u dewis personol. Bydd rhestr o lyfrau addas a awgrymir gan yr adran ar gael iddynt. Cedwir cofnod o'r llyfrau a ddarllenir mewn Record Darllen a ddosberthir ar ddechrau'r flwyddyn.

Mae'n ofynnol i'ch plentyn i ddod a llyfr darllen Saesneg i'r ysgol bob dydd â gofynnir i chi i sicrhau hyn.

Defnydd Geiriaduron

Defnyddir geiriaduron a thesawrysau yn rheolaidd yn y gwersi ac er bod gan yr adran nifer ohonynt byddai o fudd i ddisgyblion pe bai ganddynt gopiau personol.

Gwaith Cartref

Gosodir gwaith cartref ddwy waith yr wythnos yn unol ag amserlen y dosbarth. Bydd y gwaith yn amrywio a'r pwrpas fydd i ddatblygu sgiliau y disgyblion yn y tri Tharged Cyrhaeddiad. Mae'n bosib y gofynnir i'ch plentyn ddarllen rhan o lyfr, i wneud nodiadau, ateb

cwestiynau ar thema. Gosodir amrywiaeth o dasgau ac un tasg gyffredin a fydd yn rhan o asesiad ffurfiol y disgybl yn ystod y flwyddyn.

Mae'r adran yn awyddus i chi i annog eich plentyn i gwblhau pob tasg ac i gyflwyno'r gwaith yn brydlon.

Cywiro Gwaith

Cywirir gwallau sillafu, atalnodi, gramadeg a mynegiant ym mhob darn o waith a asesir yn ffurfiol. Disgwylir i bob gwall sillafu a nodir gan yr athro i gael ei gywiro dair gwaith. Cyfrifoldeb y disgybl ydy gwneud hyn a byddai yn help mawr pe byddech chi yn gallu arolygu cwblhad y dasg hon.

Hefyd, ar ddiwedd pob darn o waith a asesir bydd sylw gan yr athro a nodir cyngor ar sut i wella yn y dyfodol. Efallai y byddech yn dymuno trafod y sylw hyn gyda'ch plentyn.

Defnydd Technoleg Gwybodaeth

Rhoddir cyfle i ddisgyblion i ymarfer eu sgiliau cyfrifiaduro yn ystod gwersi Saesneg. Gofynnir iddynt ddefnyddio rhaglenni megis MSWORD ac i wneud gwaith ymchwil ar y WE.

Gwyddoniaeth

Rhennir cwrs gwyddoniaeth Blwyddyn 7 i nifer o unedau gwaith :

- Diogelwch a chyfarpar
- Defnyddiau
- Asidau ac Alcalinau
- Gwahanu cymysgeddau
- Amrywiaeth bywyd
- Egni



Cyflwyno'r Gwaith

Bydd gan eich plentyn un llyfr ysgrifennu ar gyfer cadw nodiadau, cofnodi arbrofion a gwaith cartref. Disgwylir i'ch plentyn gadw'r llyfr yma'n daclus a gludo taflenni gwaith i fewn.

Ar ddiwedd uned gwaith "Egni" bydd eich plentyn yn cael y cyfle i wneud gwaith ymchwil ar gyfer prosiect estynedig ar "Egni adnewyddadwy". Ymgais yw hwn i annog y disgyblion i ddefnyddio'r llyfrgell a'r We ac i ymarfer sgiliau ysgifennu estynedig.

Cadw llygad ar gynnydd

Bydd gwaith cartref yn cael ei osod yn wythnosol . Defnyddir y dyddiadur gwaith cartref i gofnodi'r dasg a dyddiad cyflwyno'r gwaith. Wrth farcio'r gwaith bydd yr athro pwnc yn ysgrifennu sylwadau i gefnogi'r deall.

Bydd prawf ffurfiol yn cael ei osod ar ddiwedd pob uned gwaith. Hefyd, bydd eich plentyn yn llenwi taflen hunan asesu er mwyn cael cyfle i nodi unrhyw broblem a gawsant gyda'r gwaith.

Geirfa Gwyddonol

Bydd eich plentyn yn derbyn rhestr o dermau gwyddonol dwyieithog a ddefnyddir ymhob uned gwaith i'w osod yn ei lyfr/llyfr ysgrifennu. Bydd y daflen yn gymorth i sicrhau sillafu cywir wrth ateb cwestiynau.

Cefnogaeth rhieni

Mae yna nifer o ffyrdd i gefnogi cynnydd eich plentyn:

- Sicrhau bod gwaith cartref yn cael ei orffen erbyn y dyddiad a nodir yn y dyddiadur gwaith cartref.
- Annog eich plentyn i barchu ei lyfr/llyfr gwaith ac i'w gadw'n daclus.(e.e. Teitlau wedi tanlinellu, dyddiad y gwaith ar yr ochr dde a'r taflenni gwaith wedi cael eu gludo yn eu lle.)
- Sicrhau bod eich plentyn wedi copio i fyny unrhyw waith a gollwyd yn ystod absenoldeb.
- Annog eich plentyn i ofyn am gymorth yr athro pwnc os nad ydyw wedi deall darn o waith ar y cyfle cyntaf. (Gellir gwneud hynny ar ddechrau neu ar ddiwedd gwers os yw'ch plentyn yn rhy swil i ofyn o flaen gweddill y dosbarth.)
- Gallwch ennyn diddordeb eich plentyn yn y pwnc wrth wylio rhaglenni gwyddonol ar y teledu gyda'ch gilydd neu drafod pynciau gwyddonol cyfoes sy'n ymddangos yn y wasg yn rheolaidd. Nid oes angen unrhyw ddyfnder o wybodaeth gwyddonol i wneud hyn .
- Bydd adolygu ar gyfer profion ac arholiadau mewnol yn brofiad newydd i'ch plentyn. Gallwch gefnogi'r adolygu wrth ofyn cwestiynau am y gwaith iddo/iddi.

Astudiaethau Crefyddol

Rhaglen Astudio Blwyddyn 7

Seilir y Cwrs ar gyhoeddiad Nelson Thornes "Archwilio Materion Mewn Addysg Grefyddol"

Tymor y Nadolig

Holi Cwestiynau

Beth yw crefydd?
Pwy ydw i?
Beth yw pwrpas bywyd?

↓

Archwilio syniadau gwahanol bobl am y byd a'u profiadau.

↓

Astudio mannau o addoliad: capel, eglwys a synagog. Atgyfnerthir y dysgu gydag ymweliadau a gwahoddir gweinidog neu offeiriad i'r ysgol.

↓

Tasg Safonol: Gwaith yr Eglwys yn y gymuned

Tymor y Pasg

Defodau derbyn

Bedydd plentyn
Bedydd Crediniwr
Bar/t Mitzvah

↓

Mynegiant Crefyddol

↓

Ffyrdd o addoli
Gweddi
Mathau o weddi
Tasg Safonol: Pam mae pobl yn gweddio

↓

Arwyddocad Pererindod Assisi
Lourdes
Makkah

Tasg: Ymchwil personol i fan o bererindod

Tymor y Haf

Bodolaeth Duw

Beth yw cred?

Ydy Credoau o bwys?

A oes Duw?

Sut mae Hindwaid yn gweld Duw?

Beth mae Bwdhyddion yn credu?

A all rhywun newid ei gredoau?

Cwestiynau eithaf

Sut i helpu eich plentyn

- **Dewch o hyd i le tawel i weithio; ymhell o swn y teledu a gweddill y teulu**
  Mae'n haws canolbwyntio a gweithio os nad oes yna bethau i dynnu sylw.

- **Dewch o hyd i amser i siarad**
  Mae'r cwrs yn ddiddorol ac yn codi cwestiynau pwysig y bydd eich plentyn angen eu trafod.

- **Dangoswch ddiddordeb**
  Taflwch olwg ar lyfr eich plentyn o bryd i'w gilydd. Sylwch ar gyflwyniad y gwaith. Mae angen gludo taflenni rhydd i fewn yn daclus a gwneud yn siwr nad oes gwastraffu papur. Mae gan bob plentyn restr o reolau'r adran. Holwch hwy amdanynt.

Mae'n hanfodol bwysig bod gan eich plentyn lyfr drafftio neu ffeil er mwyn cymryd nodiadau a drafftio gwaith.

Hanes

Cymru a Phrydain a'r Byd Canoloesol

Sut le oedd Cymru a Lloegr yn yr unfed ganrif ar ddeg?

- Sut goncrodd y Normaniaid Gymru ?
- Pam gawson nhw drafferth?
- Pa fath o Gestyll cafodd eu hadeiladu yng Nghymru?
- Sut fywyd oedd i'w gael o dan reolaeth y Normaniaid?
- Beth oedd effeithiau'r Pla Du ar Gymru?
- Tywysogion ac arwyr Cymru.

Arweiniad i Rieni

Cynhwysir y gwaith i gyd mewn llyfrynnau a roddir i bob plentyn ar ddechrau'r cwrs. Gellir cyd-ddarllen y llyfrynnau- rhiant a phlentyn- gellir rhoi cymorth penodol wrth sicrhau dealltwriaeth lawn o gwestiynau a lleoliad y deunydd ffynhonellol

- Dylid sicrhau bod safonau cyflwyniad yn uchel.
- Rhoi clawr ar y llyfr.
- Rhoi penawdau/teitlau, a'u tanlinellu.
- Cyflwyno gwaith taclus.
- Gorffen gwaith.
- Copio gwaith a gollwyd.

Dylunio a Thechnoleg

Bydd y disgyblion yn astudio Dylunio a Thechnoleg trwy gydol Cyfnod Allweddol 3 ac yn canolbwyntio ar ddylunio a defnyddio amrywiol fathau o dechnoleg i greu cynhyrchion penodol.

Y meysydd astudio yw:

- **Technoleg Bwyd**
- **Deunyddiau Gwrthiannol (Pren, Metel, Plastigion)**
- **Tecstilau**
- **Systemau a Rheoli (Electroneg a Rheolaeth Cyfrifiadurol)**

Er mwyn sicrhau cydbwysedd a dilyniant cyflwynir y meysydd uchod ar gylchdro yn ystod y Cyfnod Allweddol.

Rhoddir cyfle i'r disgyblion ddatblygu eu sgiliau Technoleg Gwybodaeth o fewn y Stiwdio Ddylunio wrth baratoi, prosesu a chyflwyno gwybodaeth.

Addysgir y disgyblion mewn grwpiau gallu cymysg gan roi'r cyfle iddynt weithio yn annibynnol ac fel aelod o dîm.

Mae'r manyleb yn rhoi'r cyfle i weithio mewn amrywiaeth o aseiniadau lle mae gofyn iddynt ddylunio a chynhyrchu yn ogystal a gwneud tasgau ymarferol er mwyn datblygu ac ymarfer sgiliau a gwybodaeth penodol o fewn y pedwar maes astudio.

Rhoddir cryn bwyslais ar agweddau iechyd a diogelwch yn ystod y gwersi.

Yn ystod y broses o **Ddylunio** bydd y disgyblion yn:

- Derbyn brîff ddylunio ac yn gwneud gwaith ymchwil
- Gwerthuso cynhyrchion tebyg cyfarwydd
- Datblygu nifer o ddatrysiadau realistig ac ymarferol, gan arfarnu, gwerthuso a gwella eu syniadau dylunio wrth symud ymlaen
- Cyfathrebu eu syniadau mewn amrywiol ffyrdd gan gynnwys defnyddio meddalwedd cynllunio cyfrifiadurol

Yn ystod y broses **Gwneud** bydd y disgyblion yn:

- Trefnu a chynllunio y gwneud
- Dewis deunyddiau addas
- Defnyddio ystod o sgiliau ymarferol i wneud cynnyrch o safon gan gynnwys cynhyrchu gyda chyfrifiadur (CAM)
- Gwerthuso ac arfarnu'r cynnyrch gorffenedig



Disgybl Blwyddyn 10 yn defnyddio melin cyfrifiadurol EMCO i greu cynhyrchion pefriannyddol

Disgyblion Blwyddyn 9 yn paratoi resipi



Disgyblion Blwyddyn 9 yn gwerthuso cynhyrchion bwyd

Cerddoriaeth

Mae astudio Cerddoriaeth ym Mro Myrddin yn rhoi'r cyfle i ddisgyblion fwynhau ystod eang o weithgareddau. O fewn y dosbarth, ceir amrywiaeth o dasgau er mwyn datblygu sgiliau perfformio, cyfansoddi a gwerthuso. Yn ychwanegol at hyn, cynhelir cyfoeth o weithgareddau allgyrsiol ar gyfer cantorion ac offerynwyr.

Beth fyddwn ni'n astudio?

Bydd y disgyblion ym Mlwyddyn 7 yn astudio gwahanol destunau mewn unedau a gyflwynir iddynt mewn llyfryn.
Astudir yr unedau canlynol:-

- Rhythm a Thraw
- Briciau Adeiladu
- Cadw Amser
- Y Gerddorfa
- Cerddoriaeth China

Gwersi Offerynnol

Ga i ddysgu sut i ganu offeryn?
Mae Ysgol Bro Myrddin yn cynnig gwersi offerynnol ar nifer fawr o offerynnau, yn ogystal â gwersi canu. Bydd athrawon teithiol yn ymweld â'r ysgol yn rheolaidd ac yn gweithredu system o wersi sydd yn cylchdroi rhag tarfu'n ormodol ar amserlen arferol y disgyblion. Ni chodir tâl am y gwersi hyn.

Bydd disgyblion sydd yn cael gwersi offerynnol eisioes yn cael y cyfle i barhau gyda'u gwersi ym Mro Myrddin ac os oes rhywun yn dewis dechrau o'r newydd, yna, bydd angen prynu neu hurio offeryn. Fodd bynnag, mae gan yr Ysgol rai offerynnau y gellid eu defnyddio mewn rhai amgylchiadau e.e drymiau.

Os bydd nifer fawr o ddisgyblion am ddysgu rhyw offeryn penodol, gydag amser ar gyfer yr offeryn hwnnw yn brin ar ddechrau'r flwyddyn, bydd cyfle iddynt gael gwersi'n ddiweddarch pan fydd lle ar eu cyfer.

Pa offeryn ga i ddysgu?
Ar hyn o bryd gellir cael gwersi ar yr offerynnau canlynol:-

Chwythbrennau – Ffliwt, Obo, Clarinet, Basŵn a Sacsoffôn.
Pres – Trwmped, Corned, Corn Ffrengig, Trombôn a Tiwba.
Llinynnau – Ffidil, Fiola, 'Cello, Bâs Dwbl, Telyn.
Offer Taro a Roc – Drymiau, Gitâr Clasurol a Bâs.
Llais - Gwersi Canu.

Pa weithgareddau sy'n digwydd ym Mro Myrddin?
Mae disgwyl i bawb sydd yn derbyn gwersi offerynnol gyfrannu at wahanol weithgareddau sy'n cael eu cynnal yn ystod y flwyddyn. Mae croeso cynnes hefyd i ddisgyblion sydd yn derbyn gwersi offerynnol y tu allan i'r ysgol i ymuno yn y gweithgareddau hyn.

- Mae Grŵp Llinynnol Hŷn ac Iau yn ymarfer bob wythnos ac mae'r rhain ar gael ar gyfer pawb sy'n canu offeryn llinynnol.
- Mae Band yr Ysgol yn ymarfer bob bore Llun, ac mae hwn ar gyfer pawb sy'n canu offeryn chwyth neu bres.
- Mae'r "Band Mawr" yn ymarfer yn wythnosol ac mae hwn ar gyfer pawb sy'n canu offeryn pres fel trwmped, trombôn a sacsoffon.
- Mae Ensemblau gwahanol yn ymarfer yn achlysurol, ac yn addas ar gyfer gwahanol gyfuniadau o offerynnau yn ôl y galw.

Mae croeso mawr i ddisgyblion ymuno â'r Côr Iau, ac oddi yno gellir ymuno â'r Parti Merched neu'r Parti Bechgyn.

Sut galla i helpu fy mhlentyn?

- Gallwch sicrhau fod eich plentyn yn dod â'r Llyfryn Cerdd ar y diwrnod priodol, a sicrhau fod y llyfryn yn cael ei gadw'n daclus mewn ffeil blastig.
- Os yw eich plentyn yn derbyn gwersi offerynnol yn yr ysgol, mae angen sicrhau ei fod/bod yn dod â'r offeryn i'r ysgol ar y diwrnod cywir, mynychu'r gwersi yn rheolaidd, a chadw'r offeryn yn ddiogel yn ei locer. Mae angen sicrhau fod gan yr offeryn label gydag enw'ch plentyn arno.
- Anogwch eich plentyn i gymryd diddordeb byw yn y gweithgareddau cerddorol o fewn y dosbarth, ac yn allgyrsiol. Mae'r cyfraniad a wnaed gan weithgareddau cerddorol at ddatblygiad yr unigolyn yn amhrisiadwy.

Drama

Mae disgyblion blynyddoedd 7 8 a 9 yn derbyn un wers Ddrama bob wythnos. Prif nod y gwersi yw rhoi cyfle i'r disgyblion fynegi eu hunain drwy symudiadau neu ar lafar ac wrth wneud hyn, meithryn hunan hyder a ffydd yn eu syniadau. Cynigir y cyfle i ddysgu sgiliau perfformio, er enghraifft meim, byrfyfyr a chymeriadu, a thrwy hyn eu defnyddio fel cyfrwng i gyflwyno syniadau a rhoi llais i feddyliau'r disgyblion.

Rhennir y pwnc i ddwy adran:

1. Gwaith ysgrifenedig / Theori

Disgwylir i'r disgyblion:

- Ddarllen detholiadau o ddramau
- Sgriptio
- Ysgrifennu disgrifiadau o gymeriadau
- Ddysgu dyfyniadau
- Ddysgu geirfa a thermau theatrig.

2. Gwaith Ymarferol

Disgwylir i'r disgyblion:

- Wneud gwaith meim
- Actio mewn sefyllfaoedd byrfyfyr
- Gymeriadu
- Chwarae rol amrywiaeth o gymeriadau o waith a

  grewyd gan y disgyblion a gwaith allan o ddramau gosod.

Gallwch chi fel rieni helpu'r disgyblion trwy:

- Sicrhau eu bod yn gorffen y gwaith cartref
- Annog trafodaeth ar y gwaith dosbarth
- Roi profion ar waith cartref dysgu
- Werthfawrogi ymdrechion eich plentyn wrth baratoi ar gyfer eu gwaith ymarferol drwy wylio perfformiadau a chynnig adborth adeiladol
- Drwy edrych ar eu llyfrau ysgrifennu, archwilio'r sillafu, atalnodi a chamgymeriadau gramadegol
- Drafod sylwadau yr athrawon ar waith y disgyblion.

Mwynhewch eich Gwersi Drama!

Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu

Mae'r defnydd helaeth a wneir o gyfrifiaduron yn y cartref ac yn y gwaith yn ei gwneud hi'n hanfodol bod y disgyblion yn cael profiad o TGCh ac yn gallu ei ddefnyddio'n hyderus. Felly mae Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu yn rhan allweddol o brofiad addysgol pob disgybl yn yr ysgol. Mae pob disgybl ym mlwyddyn 7 yn cael un wers (1 awr) y pythefnos yn ogystal â phrofiadau o TgaCh yn y pynciau eraill ar draws y cwricwlwm. Yn ystod y gwersi y nod yw datblygu sgiliau a hyder trwy ddefnyddio'r rhaglenni sydd ar system yr ysgol i ddatrys problemau. Anogir y disgyblion i ddefnyddio eu syniadau eu hunain i ddatblygu modelau cyfrifiadurol. Mae'r diagram isod yn dangos y prif raglenni sydd yn cael ei defnyddio ym mlwyddyn 7.



Mae'r datblygiadau diweddaraf yn y maes yn cael ei drafod yn y gwersi yn ogystal â chymwysiadau TGCh ym myd gwaith a'r gymdeithas yn gyffredinol.

Cyfraniad rhieni

Mae cael cyfrifiadur gartref yn fanteisiol ond ddim yn angenrheidiol. Os ydych yn meddu cyfrifiadur mae'n bwysig annog eich plentyn i ddefnyddio'r cyfrifiadur i wneud gwaith ysgol. Hefyd trafod datblygiadau sydd yn ymddangos yn y papurau newydd ac a'r y teledu yn ogystal â unrhyw ddefnydd yr ydych yn ei wneud o TGCh yn eich gwaith dyddiol.

Addysg Gorfforol

Pennaf nod y cwrs ym mlwyddyn 7 yw i gynnal ac/neu symbylu diddordeb a mwynhad disgyblion mewn Addysg Gorfforol er mwyn meithrin talentau corfforol ac i hyrwyddo iechyd a ffitrwydd i batrwm byw presennol a'r dyfodol. Cyflwynir y cwrs trwy'r ymarferol ond mae'r gwybodaeth a dealltwriaeth cydymaith hefyd yn rhan hanfodol i bob disgybl.

Yn ystod y tymor cyntaf caiff y bechgyn brofiad o rygbi, pêldroed a gymnasteg tra bydd y merched yn ymgymryd â chwarae pelrwyd, hoci, dawns a gymnasteg. Cyflwynir trawsgwlad a ffitrwydd iechyd ar ddechrau tymor y gwanwyn. Cynhwysa'r raglen waith hon brofion ffitrwydd, gwerthusiad o ganlyniadau a gwybodaeth am sustemau'r corff. Yn ystod tymor yr haf cyflwynir yn y raglen waith athletau, tenis, criced, rownderi a gweithgareddau anturus ar safle'r ysgol.

Trwy gydol y flwyddyn fe fydd cyfle i ddisgyblion gael hyfforddiant pellach yn y gweithgareddau uchod wrth ymuno a chlybiau amser cinio ac ar ôl ysgol. Yn ogystal fe fydd cyfleoedd i nifer o disgyblion i gynrychioli'r ysgol yn y gweithgareddau yma.

Sut gallaf helpu fy mhlentyn?

Annog plant i gynyddu Lefelau ffitrwydd a phwysleisio pwysigrwydd ffordd o fyw iach. Sicrhau fod plant yn cymryd rhan flaenllaw drwy'r rhaglen Addysg Gorfforol - sicrhau eu bod yn dod ar offer/ dillad cywir i bob gwers. Cefnogi eich plentyn mewn ffordd bositif pan y mae yn cynrychioli'r Ysgol.

Ffrangeg

Dysgir yr iaith trwy ddefnydd cytbwys o'r pedwar prif sgil, sef siarad, ysgrifennu, darllen a gwrando.

Ein prif nod ym mlwyddyn 7 yw annog y disgyblion i gyfathrebu yn Ffrangeg. Defnyddir yr iaith Ffrangeg yn rhan helaethaf y gwersi.

Anogir y disgyblion i fwynhau defnyddio'r iaith trwy ganu ac actio, a chymryd rhan mewn gêmau iaith.

Y cwrs a ddilynir yw **Voyage 1**. Ceir pedair thema yn y flwyddyn gyntaf :

1. Le départ
2. Au collège à Toulouse
3. En famille à Paris
4. Chez moi à Chamonix

Yn ystod y themau hyn byddwch yn dysgu'r eirfa ganlynol:

- Dyddiau'r wythnos
- Y misoedd
- Rhifau a dyddiadau
- Gwrthrychau yn yr ystafell ddosbarth
- Dweud yr amser
- Pynciau ysgol
- Mynegi barn
- Y teulu
- Anifeiliaid
- Ystafelloedd y ty
- Celfi
- Lliwiau

Ceir gwefan ar gyfer cwrs **Voyage 1**: www.nelsonthornes.com

Adran Celf a Dylunio

Celf

Dysgir Blwyddyn 7 mewn dosbarthiadau gallu cymysg yn y pwnc hwn. Rydym fel Adran am i'r holl ddisgyblion fwynhau eu gwersi celf drwy ddilyn themau perthnasol i'w oedran a'i gallu yn y pwnc. Rhennir y cwrs Celf Blwyddyn 7 i unedau gwaith yn dilyn y themau:

- Eitemau Pob Dydd (Graffeg)
- Chi eich Hun (Celf Gain)

Bydd astudio Celf yn galluogi eich plentyn i ddatblygu sgiliau yn y Targedau Cyrhaeddiad canlynol:

- Deall: darllen, trafod ac ysgrifennu am waith arlunwyr, cynllunwyr a diwylliannau.
- Gwneud: Arbrofi a datblygu syniadau ar gyfer darnau gorffenedig o waith drwy ddefnyddio lu o gyfryngau gwanaol.
- Ymchwilio: Casglu a chyflwyno delweddau a syniadau, arlunio arsylwadol ac o'r dychymyg.

Cyflwyniad y Gwaith

Rhoddir un llyfr braslunio i'ch plentyn, mae'r llyfr hyn yn aros yn yr ysgol i osgoi ei anghofio. Defnydir y llyfr ar gyfer tasgau gwaith dosbarth ac er mwyn gludo gwaith cartref i mewn yn ddiogel.

Gwaith Cartref

Gosodir gwaith cartref unwaith y pythefnos yn dilyn amserlen y dosbarth. Bydd y gwaith yn amrywio, gallwn ofyn i'ch plentyn casglu deunyddiau ar gyfer gwneud colaj, arlunio, ymchwilio ar y we am wybodaeth ar arlunydd yr uned a gwneud darn o waith 3D. Mae'r adran yn ddiolchgar am unrhyw gefnogaeth fyddai'n annog eich plentyn i gwblhau pob tasg ac i'w gyflwyno'n brydlon.

Marcio Gwaith

Rhoddir marc a gradd ymdrech ar ddiwedd tasg ar ol ei gwblhau yn ogystal a sylwadau adeiladol ar sut i'w wella.

Clwb Celf

Cynhelir Clwb Celf unwaith yr wythnos yn ystod yr awr ginio i ddigyblion gael cymorth gyda'i gwaith , i gwblhau tasgau dosbarth ac i gymdeithasu gyda disgyblion eraill yn yr ysgol sy'n rhannu'r un diddordeb.